CYMDEITHAS HANES A CHOFNODION MEIRIONNYDD
Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor
a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, 10 Hydref 2015 yn Neuadd Llanelltud.

Presennol: Y Cadeirydd; Arwyn Lloyd Hughes; Gruffydd Aled Williams; Rhian Parry; Rheinallt Llwyd; Colin Thomas; Megan Huggins; Catherine James; Pamela J Michael; Pegi Lloyd-Williams; Buddug Medi; Yr Ysgrifennydd.

Ymddiheuriadau: Steffan ab Owain; Vivian Parry Williams; A L Darbyshire; M H Birch; Hugh G Roberts; Nan Griffiths; Aled Ellis; Jenny Lees; Elwyn A Jones.

* * * * * * * * *

1. Croeso: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. Derbyn Cofnodion y Cyngor: Derbyniwyd y Cofnodion fel cofnod cywir.

3. Materion yn Codi: Nid oedd materion nad oeddynt ar yr agenda yn barod yn codi o'r cofnodion.

4. Gohebiaeth: Cyfeiriwyd at y llythyrau canlynol –

i) Neges gan A L Darbyshire yn argymell y dylai'r Gymdeithas edrych tua'r dyfodol.

ii) Llythyr gan Hugh G Roberts yn pwysleisio pwysigrwydd yr ochr ddigidol a denu ieuenctid i'r Gymdeithas.

5. Cyfrifon: Cyflwynodd y Trysorydd ei Adroddiad am y flwyddyn a mynegodd ei ddiolch i Nereus yn y Bala am ei waith yn paratoi'r fantolen. Cyfeiriodd at y ffaith bod cynnydd yn yr arian aelodaeth a ddaeth i law, diolch i ymdrechion yr Ysgrifennydd Aelodaeth. Yn anffodus mae llogau wedi gostwng. Nododd bod gwerthiant ôl-rifynnau'r *Cylchgrawn* a'r Mynegai wedi cynyddu. Wrth sôn am Rodd Cymorth, nodwyd ein bod wedi ei dderbyn yn y gorffennol ond bod y rheolau wedi newid, a gan fod y *Cylchgrawn* yn werth mwy na'r trothwy 'Buddion i Roddwyr' ni allwn ei hawlio bellach. Nodwyd bod y Grant a gaem gan CADW wedi dod i ben erbyn hyn. Cyfeiriwyd at y grant a gaed gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri sydd wedi bod yn hwb i weithgareddau a sefyllfa ariannol y Gymdeithas. Wrth esbonio'r taliadau gwelwyd bod cost argraffu wedi aros yn sefydlog, ond bod cynnydd o ran gwaith dylunio a'n bod wedi talu am gopïo a chynnwys deunydd o'r Llyfrgell Genedlaethol. Tanlinellwyd bod cost postio yn dal i gynyddu ac y dylem ddefnyddio e-bost gymaint â phosibl. I gloi ei adroddiad nododd y Trysorydd bod diffyg am y flwyddyn. Diolchodd y Trysorydd i'r Archwiliwr, Peter Jones am ei waith. Diolchodd y Cadeirydd i'r Trysorydd am ei waith ac am ei adroddiad a gofynnwyd am gwestiynau o'r llawr. Gofynnwyd pam na allwn fynd yn ôl i'r hen drefn o ddosbarthu'r Cylchgrawn â llaw. Cytunwyd y gallai hynny arbed arian sylweddol ac y dylid ystyried y ffordd ymlaen.

6. Yr Adroddiad Blynyddol: Tynnwyd sylw Aelodau'r Cyngor at yr adroddiad. Penderfynwyd argymell i'r Cyfarfod Cyffredinol dderbyn yr adroddiad.

7. Aelodaeth: Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at ei hadroddiad yn yr Adroddiad Blynyddol a'r pryder bod y nifer o sefydliadau yng Nghymru sy'n tanysgrifio yn lleihau. Roedd yn galonogol gweld nifer o aelodau newydd wedi ymaelodi. Diolchwyd i'r Ysgrifennydd am ei gwaith yn wyneb anawsterau dirfawr a'i bod yn bwriadu rhoi'r swydd i fyny eleni.

8. *Y Cylchgrawn*: Cyfeiriodd y Golygydd hefyd at yr Adroddiad Blynyddol gan nodi bod y *Cylchgrawn* yn nwylo'r Wasg erbyn hyn. Diolchwyd i'r holl gyfranwyr am fod mor ddibynadwy a nododd bod ganddo nifer o addewidion at y rhifyn nesaf. Mynegwyd ein diolch i'r Golygydd ac i Aeron Jones a'r Wasg yn y Trallwng am eu gwaith.

9. Cyfarfodydd: Rhoddodd y Trefnydd Cyfarfodydd ei hadroddiad gan esbonio ein bod wedi amrywio ychydig ar y drefn arferol eleni. Trefnwyd cyfarfod yn Llanbedr i goffau D J Williams ac i lansio cyfrol er cof amdano, cynhaliwyd 7 gweithdy yn yr Archifdy i drafod y Rhyfel Mawr a'i effeithiau yn lleol a'r cyswllt a wnaed â Chymru dros Heddwch. Soniwyd hefyd bod y wefan newydd yn cynnig dull o gyfathrebu i'r Gymdeithas. Rhoddwyd amlinelliad hefyd o'r awgrymiadau at y flwyddyn nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r Trefnydd gan nodi ei bod yn argoeli'n dda iawn at y flwyddyn nesaf.

10. *Hanes Meirionnydd*: Rhoddodd y Cadeirydd amlinelliad i'r aelodau o'r sefyllfa ar hyn o bryd. Esboniwyd bod yr Ymddiriedolwyr yn bryderus iawn am y sefyllfa ac wedi penderfynu, oherwydd ansicrwydd am y cynnydd a wnaed a phryd y byddai'r gyfrol yn barod, ynghyd â'r pryderon ariannol cysylltiedig, eu bod yn argymell y dylid dirwyn y cynllun i ben. Yn naturiol roedd Neil Evans a Nia Watkin Powell yn siomedig iawn am y penderfyniad, a'r ddau wedi mynegi hynny. Rhoddodd y Llywydd ychydig o'r cefndir gan sôn am y ffaith bod y broses o ddwyn cyfrol o'r fath drwy'r wasg yn broses faith iawn, fel y gwelwyd gyda'r cyfrolau blaenorol. Gofynnwyd i'r darpar gyfranwyr a oedd ganddynt rywbeth i'w ychwanegu. Nododd y darpar gyfranwyr oedd yn y cyfarfod eu bod yn teimlo na fu cysylltiad rhyngddynt â'r golygyddion er peth amser i drafod eu cyfraniadau. Nodwyd bod 10 mlynedd ers i'r gyfrol gael ei rhoi ar y gweill a bod pryder na welwyd digon o gynnydd. Penderfynwyd y dylid argymell i'r Cyfarfod Cyffredinol ein bod yn dirwyn y cynllun hwn i ben.

11. Y Wefan: Mae'r wefan yn fyw erbyn hyn. Nodwyd pryder bod Google yn arwain unrhyw un fyddai'n chwilio am y Gymdeithas at yr hen wefan. Penderfynwyd cysylltu â Llyr Edwards i'w holi am hyn.

12. Ethol Swyddogion: Cadarnhaodd y cyfarfod y penodiadau canlynol:

Llywydd: Gruffydd Aled Williams; **Is-lywyddion:** E D Evans, I G Jones, Yr Arglwydd Prys Davies, Ann Rhydderch, P R Roberts, Geraint F Roberts, Arwyn Lloyd Hughes*; **Cadeirydd:** Gerallt W Hughes; **Is-gadeirydd:** Swydd Wag; **Ysgrifennydd:** Beryl H Griffiths; **Ysgrifennydd Aelodaeth:** Geraint Lloyd Jones; **Trysorydd:** Rheinallt G Llwyd; **Archwiliwr:** Peter A Jones; **Golygydd:** Arwyn Lloyd Hughes; **Trefnydd Cyfarfodydd:** Rhian Parry

Cynrychiolwyr yr Ardaloedd – 1. Cylch Blaenau Ffestiniog: Steffan ab Owain, Pegi Lloyd-Williams, V P Williams **2. Cylch Penrhyndeudraeth:** Nan Griffiths, Geraint Lloyd Jones, Pamela Michael* **3. Cylch Abermaw:** Peter Thompson, Hugh G Roberts, Leslie A Derbyshire **4. Cylch Dolgellau:** Megan Huggins, E Linda Tomos, Catherine James* **5. Cylch Tywyn:** M H Birch, Syr Meuric Rees **6. Penllyn:** Awel Jones, Mel Williams, Buddug Medi **7. Edeirnion:** Elwyn A Jones, Elena Williams, Jenny Lees **8. Aelodau Cyfetholedig:** Nia M W Powell, Dwynwen Roberts, John G Roberts, Colin Thomas, Einion W Thomas, Aled Ellis

(*) *Aelodau a etholwyd o'r newydd. Wrth argymell Arwyn Lloyd Hughes i fod yn Is-lywydd, cyfeiriodd y Llywydd at ei wasanaeth maith i'r Gymdeithas yn Ysgrifennydd 1964-70, Golygydd Cynorthwyol 1964-86 a Golygydd ers 1987 gan ddiolch yn fawr iddo am ei deyrngarwch ar hyd y blynyddoedd.*

13. Unrhyw Fater Arall:

i) Cyfeiriwyd at bryder am yr hen **Bont ar Ddyfi** gan fod cynlluniau ar y gweill i godi pont newydd. Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi ceisio cael mwy o wybodaeth am y mater ond heb fawr o lwyddiant.

ii) Derbyniwyd llythyr gan **Liz Millman** yn mynegi ei diddordeb yn hanes y diwydiant gwlân ym Meirionnydd a'i gysylltiad â chaethwasiaeth. Nododd Rhian Parry ei bod hi'n fodlon cysylltu â hi.

iii) Cyngor Gwynedd – mynegwyd pryder am y toriadau sydd yn yr arfaeth gan Gyngor Gwynedd a'u bod yn ymgynghori hyd y 10 Tachwedd ac argymhellwyd y dylai'r aelodau ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein ac y dylid anfon llythyr yn enw'r Gymdeithas hefyd.

14. Cloi: Dirwynodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben gan ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a rhwyddineb y trafodaethau.

MERIONETHSHIRE HISTORICAL AND RECORDS SOCIETY

Minutes of the Council Meeting

held on Saturday, 10 October 2015 at Llanelltud Village Hall.

Present: The Chairman; Arwyn Lloyd Hughes; Gruffydd Aled Williams; Rhian Parry; Rheinallt Llwyd; Colin Thomas; Megan Huggins; Catherine James; Pamela J Michael; Pegi Lloyd-Williams; Buddug Medi; The Secretary.

Apologies: Steffan ab Owain; Vivian Parry Williams; A L Darbyshire; M H Birch; Hugh G Roberts; Nan Griffiths; Aled Ellis; Jenny Lees; Elwyn A Jones.

* * * * * * * *

1. **Welcome:** The Chairman welcomed everyone to the meeting.
2. **Minutes of Council Meeting:** The Minutes were accepted.
3. **Matters Arising:** There were no matters arising that were not on the agenda.
4. **Correspondence:** The following correspondence was referred to –
   i) Message from A L Darbyshire recommending that the Society should look to the future.
   ii) Letter from Hugh G Roberts emphasising the importance of digital media and encouraging young people to join the Society.
5. **Accounts:** The Treasurer gave his Report for the year and expressed his gratitude to Nereus of Bala for preparing the balance sheet. He referred to the fact that subscriptions had increased, thanks to the efforts of the Membership Secretary. Unfortunately, interest rates have decreased. He referred to the fact that sales of previous issues of the *Journal* and Index have increased. Gift Aid was discussed and the fact that the Society had received it in the past but that the rules have now changed, and as the *Journal* is worth more than the 'Benefits for Donors' threshold we cannot now claim it. It was noted that the Cadw grant we have received has now come to an end. Reference was made to the Heritage Lottery Grant that has given the Society's finances and activities a boost. In explaining expenditure, it was observed that printing costs have remained constant, but that there were increases in design costs and that we had paid for copying materials to the National Library of Wales. It was highlighted that postage costs are still increasing and that e-mail should be used as much as possible. To close the Treasurer noted that there was a deficit for the year. He expressed his gratitude to the Auditor, Peter Jones for his work. The Chairman expressed our appreciation of the Treasurer's work on our behalf and for his report and asked for any comments from the floor. It was asked if we could possibly revert to the old method of distributing the Journal by hand. It was agreed that this could save costs and ways of progressing should be considered.
6. **The Annual Report:** Council Members' attention was drawn to the report. It was decided to recommend that the AGM should accept the report.
7. **Membership:** The Membership Secretary referred to her report in the Annual Report and the concern that the number of institutions in Wales that subscribe is decreasing. It was encouraging to see a number of new members had joined. The Chairman thanked the Secretary for her work although she faced severe difficulties and noted her intention to resign from the post during the year.
8. ***The Journal:*** The Editor also referred to the Annual Report noting that the *Journal* is with the printers at present. He expressed his gratitude to all the contributors for their reliability and noted that he had several articles lined up for the next issue. The Chairman expressed our appreciation of the Editor's work and the work of Aeron Jones and the Printers in Welshpool for their work.
9. **Meetings:** The Meetings Organiser gave her report explaining that we had varied a little from the usual routine this year. A meeting was arranged at Llanbedr to commemorate D J Williams and to launch a memoir, 7 workshops were held at the Record Office to discuss the First World War and its impact locally and the contact made with Wales for Peace. It was also mentioned that the new website gives us a new method of communication. A brief outline of suggestions for the next year was given. The Chairman thanked the Organiser and noted that the programme for the next year was very promising.
10. ***History of Merioneth:*** The Chairman outlined the situation at present to members. It was explained that the Trustees were very concerned about the situation and had decided, due to uncertainty regarding the progress made and when the volume would be complete, along with the associated financial concerns, that they recommend that the project should be abandoned. Understandably Neil Evans and Nia Watkin Powell were very disappointed with this decision, and both had expressed their feelings clearly. The President proceeded to give the background to the decision mentioning the fact that the process of taking such a volume through the press is a very lengthy process, as was seen with the previous volumes. The prospective contributors present were asked if they had anything to add. Those present expressed their feeling that they had no contact with the editors for some time to discuss their contributions. It was stated that 10 years had passed since the work on the volume had been initiated and that there was concern that not enough progress had been seen. It was decided that it should be recommended to the Annual General Meeting that this project should be abandoned.
11. **Website:** The website is now live. Concern was expressed that a Google search leads to the old website. It was decided we should contact Llyr Edwards to ask him to look into this.
12. **Election of Officers:** The meeting confirmed the following appointments:

President: Gruffydd Aled Williams; **Vice-presidents:** E D Evans, I G Jones, Lord Prys Davies, Ann Rhydderch, P R Roberts, Geraint F Roberts, Arwyn Lloyd Hughes*; **Chair:** Gerallt W Hughes; **Vice-chair:** Vacancy; **Secretary:** Beryl H Griffiths; **Membership Secretary:** Geraint Lloyd Jones; **Treasurer:** Rheinallt G Llwyd; **Auditor:** Peter A Jones; **Editor:** Arwyn Lloyd Hughes; **Meetings Organiser:** Rhian Parry

Area Representatives – 1. **Blaenau Ffestiniog District:** Steffan ab Owain, Pegi Lloyd-Williams, V P Williams **2. Penrhyndeudraeth District:** Nan Griffiths, Geraint Lloyd Jones, Pamela Michael* **3. Barmouth District:** Peter Thompson, Hugh G Roberts, Leslie A Derbyshire **4. Dolgellau District:** Megan Huggins, E Linda Tomos, Catherine James* **5. Tywyn District:** M H Birch, Sir Meuric Rees **6. Penllyn:** Awel Jones, Mel Williams, Buddug Medi **7. Edeirnion:** Elwyn A Jones, Elena Williams, Jenny Lees **8. Co-opted Members:** Nia M W Powell, Dwynwen Roberts, John G Roberts, Colin Thomas, Einion W Thomas, Aled Ellis

(*) *Members newly elected. In recommending Arwyn Lloyd Hughes to become Vice President, the President referred to his long service to the Society as Secretary 1964-70, Assistant Editor 1964-86 and Editor since 1987 thanking him for his loyalty throughout the years.*

13. **Any Other Business:**
    i) Concerns regarding **Pont ar Ddyfi** were expressed as there are plans to build a new bridge. The Chairman explained he had seeked further information regarding the matter but without much success.
    ii) A letter had been received from **Liz Millman** expressing her interest in the history of the woollen industry in Merioneth and its links to slavery. Rhian Parry stated that she would be willing to respond.
    iii) Gwynedd Council – concern was expressed regarding the intended cuts in the Council and that they are consulting on these until 10 November and it was recommended that the members should respond on-line and that a letter should also be sent on behalf of the Society.
14. **Close:** The Chairman brought proceeding to a close and expressed his appreciation for the support of the members present and the fluency of the discussions.

Cofnodion y Cyngor.indd 2 14/09/2016 13:44